Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Rhagfyr 2019

Full Council Meeting December 2019

Rhoddir rhybudd y cynhelir **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Mis Rhagfyr** ar **Nos Lun, 16 Rahgfyr 2019 yn Neuadd Pentref Carmel i gychwyn 7.30 yr hwyr** ***ac felly fe'ch gwysir chwi i fynychu.***

Notice is herby given that the **December full Council meeting** will be held on **Monday, 16 Rhagfyr 2019 at Carmel Village Hall to commence 7:30 pm** and you are ***summoned to appear***

Bydd y ceisiadau cynllunio ar gael i chwi am ugain munud cyn i'r cyfarfod gychwyn.
Planning applications will be available to view twenty minutes before the start.

Amgaeaf y canlynol i chwi
The following is enclosed -

1) Rhaglen Cyfarfod 16 Rhagfyr 2019 - Agenda for the Council Meeting 16 December 2019
2) Cofnodion drafft Cyngor Llawn 18 Tachwedd 2019 - Draft Minutes of the Council Meeting 18 November 2019.
3) Cofnodion drafft Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 26 Tachwedd Tachwedd 2019 - Draft Minutes of the Finance Committee Meeting 26 November 2019.
4) Cofnodion drafft Gweithgor Ymgysylltu 7 Tachwedd 2019 - Draft Minutes of the Consulting Working Group held 7 Novemberr 2019.

Cyfarfod / Meeting	**Cyngor Llawn – Full Council**
Dyddiad / Date	**Nos Lun, 16 Rhagfyr 2019 / Monday, 16 December 2019**
Amser/ Time	**7.30 yr hwyr / pm**
Lleoliad/ Location	**Neuadd Pentref Carmel Village Hall**

Rhaglen / Agenda

(noder y bydd Ann Llwyd Williams yn bresennol i gyfieithu'r trafodaethau / note that Ann Llwyd Williams will be in attendance to translate proceedings)

1 **Croeso'r Cadeirydd – Cyng. Alun Wyn Jones / *Chairman's Welcome - Cllr Alun Wyn Jones***

2 **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb Aelodau / *Apologies from Members***

3 **Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen / *To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda.***

4 **Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Cyngor Llawn a gynhaliwyd 18 Tachwedd 2019 fel Rhai Cywir- *To Accept the Minutes of the Full Council meeting held 18 November 2019, as a true record .***

5 **Materion yn Codi o'r Cofnodion – *Matters Arising from the Minutes***

a) **Deddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cynghorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 / Environment Wales Act 2016 - Community & Town Councils Duty under Section 6**

Mae'n ofynnol i'r Cyngor fel corff cyhoeddus i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud i gydymffurfio a'r ddyletswydd i gynnal a chryfhau Bioamrywiaeth o fewn ein meysydd gwaith presennol. Rhaid i'r cynllun fod mewn lle erbyn diwedd 2019

Ystyried a mabwysiadu ymateb y Cyngor / Consider & adopt the response

b) **Lloches Bws Gardd Carmel / Carmel Bus Shelter (Community Garden)**
Diweddariad ar y noson / Update in the meeting

c) **Meysydd Chwarae yn y Gymuned / Playing Fields in the Community**
Diwedariad ar y noson

ch) **Gwefan Newydd / New Website**

Derbyniwyd gadarnhad y bydd Delwedd yn cychwyn gweithio ar y gwefan newydd ar 3/2/19 . Disgwylir y bydd draft ar gael oddifewn 7 I 10 diwrnod.

d) **Biniau Halen / Salt Bins**
Diweddariad ar y noson

---

6 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 26 Tachwedd 2019 fel Rhai Cywir- ***To Accept the Minutes of the Finance Committee held 26 Novemberr 2019, as a true record***

7 Materion yn Codi o'r Cofnodion – Matters Arising from

---

8 Materion Yn Codi Gan Aelodau – Matters Arising From Members

Cyng. Bryn Williams – Tomen Sibi

Cyng. Eddie Willcox –

1) Bus shelters / Llochesi Bws
2) Pumped storage
3) Doggie bins / Biniau Baw Cwn
4) Tenders

Cyng. Hywel J Owen – Loriau o Chwarel Fron

Gohebiaeth / Communication

9 Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol / National Eisteddfod Office

Eisteddfod Boduan 2021

Gweler lythyr gan Swyddfa'r Eisteddfod Genedlaethol yn datgan fod targed o **£5,000** wedi ei osod ar ardal Llandwrog i gynnal Eisteddfod Boduan yn 2021.

e-bost 6-12/19 frd

GWEITHREDU –ystyried y cais a phenderfynu sut i weithredu i gyrraedd y targed
ACTION REQUIRED – to consider the request & decide on how to proceed to meet the target options

EISTEDDFOD
Swyddfa'r Eisteddfod Office
Uned 15, Parc Busnes yr Wyddgrug, Ffordd Wrecsam, Yr Wyddgrug, Sir Fflint CH7 1XP
Unit 15, Mold Business Park, Wrexham Road, Mold, Flintshire CH7 1XP

gwyb@eisteddfod.org.uk ☎ 0845 40 90 400

Rhagfyr 2019

Annwyl Glerc,

Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2021

Fel y gwyddoch, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn dod i Foduan yn y flwyddyn 2021, ac y mae croeso mawr yn ei disgwyl. Roedd y brwdfrydedd a welwyd yn y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ym Mhwllheli yn ddiweddar yn gadarnhaol iawn, gyda dros 400 yn bresennol. Erbyn hyn sefydlwyd y pwyllgorau pwnc i gyd, ac mae Pwyllgor y Gronfa Leol yn y broses o sefydlu pwyllgorau apêl ym mhob rhan o'r dalgylch i godi arian at y gronfa leol. Bydd y rheini yn gyfrifol am drefnu nifer o weithgareddau cymunedol i gyrraedd nod ariannol o £400,000.

Er mai yn Nwyfor y cynhelir yr Eisteddfod mae Arfon ac ardaloedd cyffiniol yn rhan o'r dalgylch a'r gobaith yw y bydd yna gydweithio llawen fel y gwelwyd yn 2005 pryd y cynhaliwyd yr Eisteddfod yn Ystâd y Faenol ger Bangor. Dyna fyrdwn y neges hon mewn gwirionedd, sef i'ch annog i'n cefnogi i gynnal gŵyl werth chweil yma yn y Gogledd Orllewin ymhen 2 flynedd.

Mae'r Eisteddfod yn un o wyliau diwylliannol mwyaf nodedig Ewrop, a'i gwerth yn enfawr. Profodd astudiaethau annibynnol ei bod yn dod â swm o hyd at £8 miliwn o bunnoedd i'r economi leol, ond yn bwysicach na hynny, mae'n rhoi cyfle gwych i ddoniau o bob math gystadlu a pherfformio ar lwyfan cenedlaethol, ac yn tynnu sylw gwlad gyfan at y fro lle'i cynhelir. Yn Awst 2021 ac am fisoedd lawer cyn hynny, bydd llygad Cymru oll ar yr ardal.

Y bwriad yw mynd ati yn y flwyddyn newydd i sefydlu pwyllgorau apêl i gyd-fynd â chynghorau tref a chymuned y dalgylch gyda tharged yn cael ei osod i bob un; **£5,000** yw'r targed drafft yn achos **ardal Llandwrog**. Rydym yn ffyddiog y byddwch chi fel cyngor lleol yn barod i gefnogi'r Brifwyl drwy gyfrannu at ei chyllid (dros 3 blynedd ariannol pe dymunir), a bydd eich cyfraniad yn mynd i gynorthwyo'ch pwyllgor apêl lleol. Yn ddiweddar, er enghraifft, cyfrannodd Cyngor Tref Llanrwst £25,000 a Chyngor Tref Bae Colwyn £7,000 ar gyfer Prifwyl 2019. Yn Ynys Môn yn 2017 ac yng Nghonwy yn 2019, bu bron i bob cyngor tref a chymuned gefnogi yn ôl eu gallu, a gobeithio y byddwn yn medru efelychu hyn yn 2021.

Gwyddom fod y cyfnod hwn yn gyfnod cyllidol anodd i Lywodraeth Leol, ond erfyniwn arnoch i fod mor hael ag y gallwch tuag atom, os gwelwch yn dda, gan ei ystyried yn ddigwyddiad mewn cenhedlaeth i ddangos yr ardal ar ei orau. Oes, y mae gennym nod ariannol, ond y nod pwysicaf un yw cynnal Eisteddfod gofiadwy a fydd yn adlewyrchiad o fywyd cyfoethog y Gogledd Orllewin. Gyda'ch cefnogaeth ardderchog chi gallwn sicrhau'r ddeubeth.

Os dymunwch i gynrychiolydd ddod i un o'ch cyfarfodydd i drafod y mater hwn, byddwn yn fwy na pharod i drefnu hynny.

Yn gywir,

Michael Strain **Dafydd Rhun**

10 Llywodraeth Cymru / Wales Government

Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) / Local Government and Elections (Wales) Bill

Ebost 18/11/19 fwd

Cyflwynodd y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol y Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a chyhoeddodd Ddatganiad Ysgrifenedig i Aelodau'r Cynulliad. Gellir cyrchu'r Datganiad Ysgrifenedig trwy wefan Llywodraeth Cymru **Datganiad Ysgrifenedig**

The Minister for Housing and Local Government introduced the Local Government and Elections (Wales) Bill to the National Assembly for Wales and issued a Written Statement to Assembly Members. The Written Statement can be accessed via the Welsh Government website **Written Statement**

GWEITHREDU –cynnig sylwadau
ACTION REQUIRED – offer comments

11 Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru: Cymru Fwy Cyfartal - Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Ebost 22/11/19 fwd

Llywodraeth Cymru yn lansio ymgynghoriad wyth wythnos – Cymru Fwy Cyfartal – Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Daw'r ymgynghoriad i ben ar **17 Ionawr 2020** – byddem yn croesawu eich safbwyntiau. Mae dolenni i'r dogfennau ymgynghori a Datganiad Ysgrifenedig, a gyflwynwyd heddiw gan y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, ar gael yma:

https://llyw.cymru/deddf-cydraddoldeb-2010-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

https://llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cymru-fwy-cyfartal-cychwyn-y-ddyletswydd-economaidd-gymdeithasol

Welsh Government consultation: A More Equal Wales - Commencing the Socio-economic Duty

Welsh Government today launches an eight week consultation - A More Equal Wales – Commencing the Socio-economic Duty. The consultation closes on the **17 January 2020** - we would welcome your views. Links to both the consultation documents and a Written Statement, delivered today by Deputy Minister and Chief Whip

GWEITHREDU –cynnig sylwadau
ACTION REQUIRED – offer comments

12 Un Llais Cymru / One Voice Wales

Rhaglen Adnewyddu Pas Bws/ Bus Pass Renewal Programme

Ebost 25/11/19 fwd

Manylion am sut all pobl wneud cais am eu teithebau bws newydd. Gofynnir ichi ddosbarthu'r wybodaeth mor eang ag y gallwch o fewn eich cymuned neu dref

Details of how people can apply for their new bus passes. Can you please circulate the information as widely as possible within your community or town.

GWEITHREDU –er gwybodaeth yn unig
ACTION REQUIRED – for information only

13 Un Llais Cymru / One Voice Wales –

Bwletin Newyddion Tachwedd 2019 / News Bulletin Nvember 2019

Ebost 27/12/19 fwd

GWEITHREDU –er gwybodaeth yn unig
ACTION REQUIRED – for information only

14 Swyddfa Comisiynydd Trosedd yr Heddlu Office of the Police Crime Commissioner

Ebost 2/12/19 fwd

Hoffai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd glywed eich barn am blismona, ei flaenoriaethau a'r phraesept 2020/21 (y rhan o'r dreth gyngor sy'n talu am blismona). I rannu eich barn, cliciwch **yma** i gwblhau ein harolwg ar-lein. Os ydych chi'n rhan o sefydliad neu grŵp, a wnewch chi rhannwch yr e-bost hwn gyda'ch cysylltiadau os gwelwch yn dda. Os hoffech gael copi papur o'r arolwg neu os oes angen unrhyw fformat arall sy'n cynnwys Hawdd ei ddeall, cysylltwch â Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a throsedd dros y ffôn, drwy'r post neu drwy e-bost. Mae'r wybodaeth gyswllt wedi'i rhestru isod.

The Police and Crime Commissioner would like to hear your views on policing, his priorities and the 2020/21 Precept (the part of the Council Tax that pays for Policing). To share your views please click **here** to complete our online survey. If you are part of an organisation or group please share this email with your contacts. If you would like a paper copy of the survey or require any other format which includes Easy Read please contact the Office of the Police and Crime Commissioner via telephone, post or email. All contact information is listed below.

GWEITHREDU – cynnig sylwadau
ACTION REQUIRED – to offer comments

15 CyngorGwynedd – Adran Cyllid / Gwynedd Council Finance Department

Gohebiaeth er gwybodaeth / Communication for information only

PRAESEPT 2020/21

Yn unol â'r drefn arferol, mae'n amser cyflwyno manylion penderfyniad eich Cyngor Cymuned / Tref ar gyfer eich praesept 2020/21 os gwelwch yn dda. Buaswn yn ddiolchgar pe bai modd cwblhau'r manylion isod a'i dychwelyd ar e-bost **erbyn Dydd Gwener 24ain o Ionawr 2020**, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â'r praesept, yna mae croeso i chi gysylltu gyda Heledd Thomas i drafod ymhellach - gweler y manylion cyswllt uchod. Fel arfer, bydd y Cyngor yn talu'r praesept mewn dau randaliad, sef ar ddiwrnod gwaith olaf Ebrill ac Awst.

Er gwybodaeth, atodaf restr sy'n dangos Sylfaen Drethiannol y gwahanol ardaloedd ar gyfer 2020/21. Gallwch gyfrifo beth fydd effaith eich gofynion ar y Dreth Gyngor Band D yn eich ardal drwy rannu eich anghenion fel a nodir ar y ffurflen amgaeedig gyda'r ffigwr a nodir gyferbyn â'ch Cyngor ar y rhestr, er enghraifft, Sylfaen Drethiannol Cymuned Aberdaron yw **547.61** ac os bwriedir casglu a hawlio praesept o £1,000 byddai hyn yn golygu cost o £1.83 o Dreth Cyngor Band D ar gyfer y gymuned yma (h.y. £1,000 / 547.61).

GWEITHREDU – er gwybodaeth yn unig
ACTION REQUIRED – for information only

16 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications

Ceisiadau Rhagfyr 2019 - Applications for December 2019

Cais Rhif / Application Number - **C19/1043/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Bryn Haul, Gladstone Terrace, Groeslon LL54 7TE**
Bwriad / Proposal - **Dymchwel estyniad a modurdy presennol a chodi estyniad deulawr ochr y neu lle/ Demolish existing extensions & garahe & construction of a replacement two story side extension**

GWEITHREDU – cynnig sylwadau, gwrthod neu caniatau y cais/ceisiadau
ACTION REQUIRED – to offer comments, reject or approve the development/s

Materion Ariannol / Financial Matters

17 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Tachwedd 2019 – Income Received November 2019

Manylion / Details	Cyfanswm
Ffioedd Claddu – Burial Fees	£604.00

18 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved by Council

Manylion / Details	Swm heb y TAW / Excluding VAT	TAW - VAT	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Rheolwr – Rhag 2019 – Managers Salary Dec 2019	£545.71		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Rhag 2019 – Income Tax Dec 2019	£151.00		Uniongyrchol/Direct
HMRC – Yswiriant Gwladol y Rheolwr Rhagfyr/ NI Dec 2019	£4.20		Uniongyrchol/Direct
NEST – Cyfraniad y Cyngor Rhag/Employers C'btions Dec 2019	£75.52		Uniongyrchol/Direct
NEST – Cyfraniad y Rheolwr Rhag/Manager C'butions Dec 2019	£30.21		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Rhag 2019 – Managers Allowance Dec 2019	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Canolfan y Fron - Llogi	£36.00	£7.20	Taliad Ar Lein
Canolfan y Fron - Llogi	£18.00	£3.60	Taliad Ar Lein

19 Cyfarfodydd Nesaf / *Next Meetings*

Cyfarfod / Meeting – **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Ionawr / January Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 20 Ionawr 2019 / Monday 20 January 2019
Amser / Time - 7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad / Venue Neuadd – Canolfan Y Fron

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Pwrpas / Purpose – Asesiad Risg / Risk Assesment; Polisi Bancio a Thalu Ar Lein; Monitro Cyllideb 2019-20 3ydd Chwarter
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time – 7.00 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo**
Pwrpas / Purpose – Amserlen agor fynwent Bryn'rodyn Newydd ynghyd a polisi cerrig beddi ; Diweddariad gwaith cynnal mynwentydd; Amserlen tendro cynnal tiroedd 2021; Polisi Defnydd Caeau Chwarae; Cynnig Cyngor Gwynedd i gymeryd cyfrifoldeb am y Meysydd Chwarae
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time – 7.00 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – **Gweithgor Ymgysylltu**
Pwrpas / Purpose – Gwefan Newydd – cadarnhau tudalenni, enw y porth, trefniadau e bost
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time – 7:oo pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

---

20 Materion i'w codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn – 20 Ionawr 2020.
Matters to be raised by members in the next meeting - 20 Ionawr 2020

Diwedd - end